

Condemnio hyfforddi peilotiaid o Sawdi Arabia ym Maes Awyr y Fali

Datganiad gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr), Grwp Heddwch Sir Conwy, CND Cymru a Chymdeithas yr Iaith

Mae mudiadau heddwch a chyfiawnder Gogledd Cymru yn gwrthwynebu yn ddigyfaddawd ddefnydd Maes Awyr y Fali ac awyr Cymru gan beilotiaid o Sawdi Arabia wrth iddynt baratoi i gyfrannu at y rhyfel yn Yemen.

Maent yn annog eu cefnogwyr i ymgynull **tu allan i brif gatiâu Maes Awyr y Fali er mwyn cynnal gwylnos am 5:30 gyda'r nos, dydd Mercher Tachwedd 7fed**. Wrth wneud hyn maent yn gofyn y canlynol gan Cyngor Sir Môn, Llywodraeth Cymru a Senedd San Steffan.

Mae Rhyddfraint Ynys Môn yn cael ei roi gan y Cyngor er mwyn dathlu cyfraniad arbennig i'r ynys. Rhoddir lle blaenllaw i'r Awyrlu yn y Fali fel corff sy wedi derbyn y fraint bwysig hon. Daeth newydd i law fod 30 peilot o Sawdi Arabia yn cael eu hyfforddi yn y Fali fel y gallant ddefnyddio eu sgiliau newydd yn y rhyfel dieflig sy'n lladd miloedd yn yr Yemen. Mae'r gweithgaredd hwn yn adlewyrchu'n wael iawn ar yr ynys. Dyma pam mae Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion yn Ngogledd Cymru (Crynwyr), Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn, Grwp Heddwch Sir Conwy, CND Cymru a Chymdeithas yr Iaith **yn galw ar y Cyngor Sir dynnu'r Rhyddfraint oddi ar yr Awyrlu tra bod hyn yn digwydd**.

"Gyda siom a thristwch enfawr cawsom wybod yn ddiweddar fod peilotiaid o Saudi Arabia yn cael eu hyfforddi yn RAF Valley" meddai Anna Jane Evans, llefarydd ar ran Cymdeithas y Cymod. Ychwanegodd: "Mae Llywodraeth San Steffan yn gwerthu arfau rhyfel gwerth miliynau lawer i'r wladwriaeth ormesol yn Sawdi Arabia, a rhan o'r cytundeb yw hyfforddi peilotiaid sut i'w defnyddio. Gadewch i ni fod yn hollol eglur – mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at ladd plant a phobl ddiniwed sydd a dim oll i'w wneud a'r rhyfel yn Yemen."

Mae'r mudiadau yn gofyn i Lywodraeth Cymru condemnio y defnydd hwn o RAF Valley ac i ymyrryd ar frys i ddylanwadu ar Lywodraeth San Steffan i **roi'r gorau i ddefnyddio tir ac awyr Cymru i'r diben o baratoi at ladd trigolion Yemen**.

Geilw'r mudiadau Cymreig ar Lywodraeth San Steffan i **ddileu'r cytundeb arfau a hyfforddi gyda Sawdi Arabia ar unwaith**. Yn hytrach, maent yn annog y llywodraeth i weithio tuag at **heddwch yn Yemen drwy'r Cenhedloedd Unedig**.

"Sut y gall Llywodraeth San Steffan ddweud eu bod am goffau canrif ers diwedd y Rhyfel Mawr – y Rhyfel oedd i fod i roi terfyn ar bob Rhyfel – tra'n hybu lladd, dioddefaint a Rhyfela yn Yemen?" meddai Anna Jane

Cyswllt: Awel Irene, Cymdeithas y Cymod on 0786 7790 971 or cymdeithasycymod@gmail.com